CCDC Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
DIAW Digital Inclusion Alliance Wales


# Archwilio Effaith


## Blaenoriaeth 4: Sgiliau hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd yn yr economi

## Mawrth 2025


# Canlyniadau meintiol o'r arolwg

- Cafwyd 38 o ymatebion i'r arolwg.
- Cynhwyswyd yr un cwestiynau o arolwg Rhagfyr 2023 ar gyfer Blaenoriaeth 4, ynghyd â chwestiwn penodol ar AI, gan mai dyma oedd canolbwynt y cyfarfod. Mae adroddiad Archwilio Effaith ar gyfer Blaenoriaeth 4 o fis Rhagfyr 2023 ar gael yma.
- Dim ond 13% o'r ymatebwyr sy'n cytuno bod y ddarpariaeth o hyfforddiant sgiliau digidol i oedolion yng Nghymru yn ddigonol i ddiwallu anghenion pob oedolyn yn y wlad. Dyma'r un canlyniad â'r arolwg blaenorol, sy'n awgrymu bod yr ymatebwyr yn teimlo nad yw'r ddarpariaeth wedi gwella.
- O'r sefydliadau hynny sydd wedi cynnal archwiliad o sgiliau digidol gyda staff a gwirfoddolwyr (5), defnyddiodd 60% yr wybodaeth honno i wneud penderfyniadau seiliedig ar ddata am ymyriadau sgiliau digidol. Mae hyn i lawr o (17) ac 81% o fis Rhagfyr 2023.
- Mae 32% o'r ymatebwyr yn teimlo bod busnesau a sefydliadau ledled Cymru yn hyfforddi ac yn uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol. Dangosodd yr arolwg diwethaf fod 17% yn cytuno, sy'n awgrymu gwelliant mewn agweddau tuag at yr hyfforddiant a gyflwynir gan fusnesau a sefydliadau.
- Nid oedd 66% o'r ymatebwyr yn gwybod neu'n anghytuno bod ymyriadau sgiliau digidol a ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu. Cymharer hyn â 70% ym mis Rhagfyr 2023.
- Mae 84% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod CCDC yn cael dylanwad cadarnhaol ar y ddarpariaeth o hyfforddiant sgiliau digidol yng Nghymru, i fyny o 76% ym mis Rhagfyr 2023.
- Mae 71% o'r ymatebwyr yn perthyn i grwpiau neu bartneriaethau lle maen nhw'n trafod hyfforddiant sgiliau digidol, i fyny o 67% ym mis Rhagfyr 2023.
- Mae 63% o'r ymatebwyr yn teimlo'n hyderus wrth roi cyngor a chymorth ar AI i'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.



Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau digidol i oedolion yng Nghymru yn ddigonol er mwyn diwallu anghenion holl oedolion Cymru.
25
20
15
10
5
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod



Mae fy sefydliad wedi cynnal archwiliad o sgiliau digidol staff a/neu wirfoddolwyr.
25
20
15
10
5
0
Ydw
Nac ydw
Ddim yn gwybod


Os mai 'Ydyn' oedd eich ateb, ewch i C2: Mae fy sefydliad wedi defnyddio'r data o'r archwiliad sgiliau digidol i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ynglŷn â hyfforddiant sgiliau digidol ar gyfer staff a/neu wirfoddolwyr. (5 responses)






Mae busnesau a chyflogwyr o bob sector ledled Cymru yn hyfforddi ac yn uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol craidd.




Mae gweithgareddau cynhwysiant digidol sy'n cael eu hariannu gan Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu.
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod


Pa mor hyderus rydych chi'n teimlo ynglŷn â rhoi cyngor a chymorth ar AI i'r bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw?
20
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Hyderus iawn
Rhywfaint yn hyderus
Niwtral
Rhywfaint yn anhyderus
Hollol anhyderus


Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu mentrau sgiliau digidol yng Nghymru.
25
20
15
10
5
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod


Ydych chi'n aelod o unrhyw fyrddau/partneriaethau/grwpiau lle rydych chi'n trafod hyfforddiant sgiliau digidol?
Nac ydw 29%
Ydw 71%

# Dadansoddi cynnwys dogfennau polisi a strategaeth

- Chwiliwyd dogfennau am y termau allweddol: cynhwysiant digidol, allgáu digidol, Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, cysylltedd (digidol), hygyrchedd (digidol), a sgiliau (digidol).
- Mae CCDC yn falch iawn o nodi'r sôn am Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru a'r Safon Byw Digidol Gofynnol yng nghynllun Llywodraeth y DU, *Digital Inclusion Action Plan: First Steps* (2025). O'r adroddiad (ar gael yn Saesneg yn unig):

*Wales and Scotland have leveraged shared best practices through the Minimum Digital Living Standards (MDLS) to enhance their digital inclusion strategies. Initiatives like Digital Communities Wales and Connecting Scotland focus on ensuring accessible internet, providing necessary devices, and promoting digital skills, all tailored to their specific regional needs and priorities. Additionally, both nations have launched their respective Digital Inclusion Alliances, bringing together organisations across the digital inclusion space to share learning and coordinate efforts. This collaborative approach aims to more effectively support digitally excluded individuals across Wales and Scotland.*

| | Cynhwysiant Digidol | Allgáu Digidol | Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru | Cysylltedd (Digidol) | Hygyrchedd (Digidol) | Sgiliau (Digidol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Digital Inclusion Strategy* (2014), Llywodraeth y DU | 101 | 38 | 0 | 17 | 10 | 142 | 308 |
| *Digital Inclusion Action Plan: First Steps* (2025), Llywodraeth y DU | 130 | 63 | 1 | 45 | 14 | 112 | 365 |

# Astudiaeth Achos

**Bethan Richmond, Uwch Reolwr CR&S | Arweinydd Rhaglen Cynhwysiant Digidol y DU Capgemini**

**Dywedwch yn gryno wrthon ni am eich prosiect / rhaglen**
Mae Capgemini, partner trawsnewid busnes a thechnoleg byd-eang, wedi bod yn ymwneud â gwahanol fentrau cynhwysiant digidol.

Dechreuodd rhaglen cynhwysiant digidol Capgemini fel menter ymgysylltu â gweithwyr, ond ers hynny mae wedi esblygu i fod yn strategaeth gynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr effaith gymdeithasol. Nod y rhaglen yw mynd i'r afael â chynhwysiant digidol drwy gynnig hyfforddiant ar sgiliau digidol a chreu cyfleoedd gwaith, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hymylu a'r rhai dan anfantais.

Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- **Hyfforddiant Sgiliau Digidol Sylfaenol**: Partneru â sefydliadau fel Digital Unite ac Ymddiriedolaeth y Brenin i gynnig sgiliau digidol sylfaenol.
- **Hyfforddiant Sgiliau Digidol Uwch**: Cydweithio â Code Your Future i hyfforddi unigolion mewn datblygu gwefannau a sgiliau digidol uwch eraill, gan arwain at gyfleoedd gwaith.
- **Gwasanaethau Pro Bono**: Cynnig gwasanaethau trawsnewid digidol am ddim i sefydliadau trydydd sector i feithrin capasiti.

Mae ffordd Capgemini o ymdrin â chynhwysiant digidol yn amlochrog, gan fynd i'r afael ag anghenion allanol a mewnol. Yn allanol, mae'n canolbwyntio ar sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl nac o dan anfantais wrth i fwy a mwy o wasanaethau ddigideiddio. Yn fewnol, mae ganddo weithlu medrus, sydd â'r sgiliau digidol angenrheidiol. Mae hefyd yn annog ac yn grymuso ei bobl i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol sy'n seiliedig ar sgiliau, gan helpu eraill i ffynnu yn y dirwedd dechnoleg sy'n esblygu'n gyflym.

**Pa un o'r canlyniadau ar gyfer Blaenoriaeth 4 o'r 'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: 'O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad' rydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag ato?**
*Hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol priodol a pharhaus a meithrin hyder ar gael i bob oedolyn. Mae angen i hyn fod wyneb yn wyneb lle mae angen; nid yw'n ddigon i roi adnoddau dysgu ar-lein a thybio y gall ac y bydd y bobl sydd eu hangen yn gallu cael gafael arnynt ac yn eu defnyddio.*

Mae Capgemini yn gweithio gyda phartneriaid i gynnig hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol, gan sicrhau bod gan unigolion y sgiliau angenrheidiol i ymwneud â gwasanaethau digidol. Mae'n pwysleisio hyfforddiant wyneb yn wyneb lle bo modd, gan gydnabod nad yw adnoddau ar-lein yn unig yn ddigonol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

*Busnesau a chyflogwyr o bob sector ledled Cymru yn hyfforddi ac yn uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol craidd.*

Er bod Capgemini yn tybio bod gan ei weithwyr sgiliau digidol sylfaenol uchel, mae'n cefnogi eu datblygiad yn barhaus trwy raglenni hyfforddi helaeth a phlatfformau dysgu hunangyfeiriedig. Mae platfformau a chyrsiau hyfforddi mewnol Capgemini yn sicrhau bod ei weithlu'n parhau i fod yn fedrus ac yn addasadwy. Mae hefyd yn ysbrydoli ei weithlu i ystyried cynhwysiant digidol pobl eraill a ble gallen nhw fod yn y sefyllfa orau i helpu rhywun i elwa o wasanaethau digidol. O ganlyniad, mae Capgemini hefyd yn cymryd rhan mewn sesiynau rhannu gwybodaeth a mentrau dan arweiniad gwirfoddolwyr i wella sgiliau digidol yn y gymuned, gan gynnwys sesiynau sy'n canolbwyntio ar AI.

*Mae data a gesglir gan fframweithiau galluogrwydd, archwiliadau sgiliau digidol ac ymchwil arall yn arwain at ymrwymiad ariannu sy'n mynd i'r afael â'r rhain, ynghyd ag ymyriadau a gynhyrchir ar y cyd.*

Mae Capgemini yn defnyddio data o arolygon ac adborth i lywio a mireinio ei sesiynau hyfforddi, gan sicrhau bod anghenion y rhai sy'n cymryd rhan ynddynt yn cael eu diwallu. Mae'n cydweithio â phartneriaid fel Digital Unite i ddeall anghenion cymunedol ac yn datblygu ymyriadau wedi'u targedu.

**Sut mae bod yn rhan o CCDC wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Mae bod yn aelod o CCDC wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i Capgemini ar y dirwedd ddigidol yng Nghymru. Mae wedi ei helpu i:

- Ddeall anghenion a heriau penodol y gymuned yng Nghymru.
- Dilysu ei ragdybiaethau a'i ffyrdd o weithio drwy rannu profiadau ac adborth gan aelodau eraill.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chefnogaeth o fewn ecosystem cynhwysiant digidol Cymru.

Mae bod yn rhan o CCDC hefyd wedi galluogi Capgemini i sicrhau bod ei ymdrechion yn cyd-fynd â nodau gwerth cymdeithasol ehangach, yn enwedig yng nghontractau'r Llywodraeth. Mae hyn yn sicrhau bod ei raglenni'n gynaliadwy ac yn effeithiol, gan fynd i'r afael ag anghenion go iawn ar lawr gwlad.

Mae ymrwymiad Capgemini i gynhwysiant digidol yn amlwg drwy ei raglen gynhwysfawr sy'n cwmpasu hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol ac uwch. Mae cymryd rhan yn CCDC wedi rhoi cipolwg i'r cwmni ac wedi cadarnhau ei ragdybiaethau ei hun o heriau cynhwysiant digidol, gan helpu i lywio ei strategaeth bresennol. Mae Capgemini yn parhau i wneud camau breision i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl yn yr oes ddigidol.

CCDC Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
DIAW Digital Inclusion Alliance Wales

# Diolch am ddarllen.

**Cysylltwch â ni: diaw@cwmpas.coop**

**Dilynwch ni: @DIAWales**

cwmpas

Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme

Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being